# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Llun, 25ain Tachwedd, 2024 at 10.00 am**

**Councillors Present**

County Councillor Jackie Strong, (Vice Chair)

County Councillors: Jan Butler, Christopher Edwards, Penny Jones, Maureen Powell, Sue Riley, and Peter Strong

Also in attendance County Councillors:
Angela Sandles, Cabinet Member for Equalities and Engagement

**Officers in Attendance**

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy
Cheryl Haskell, Community Hubs North & Libraries Strategic Lead Manager

**APOLOGIES:** County Councillors Simon Howarth and Laura Wright

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Datganodd y Cynghorydd Powell a'r Cynghorydd Riley fod ganddynt Fathodynnau Glas. Esboniodd y Cynghorydd Riley mai Caroline Roberts yw ei nyrs. Datganodd y Cynghorydd Butler fod gan ei gŵr fathodyn glas.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Mynychodd Vanessa Badderley Potter (Cynghorydd Tref a Dirprwy Faer Cas-gwent) y cyfarfod a siarad yn fyr yn ystod y cyfarfod i esbonio fod pobl fregus yn ei chael yn anodd iawn llenwi ffurflen gais y Cynllun Bathodyn Glas ac y gallai ofn peidio cael eu derbyn, yn ogystal â balchder, atal pobl sydd angen y bathodynnau rhag gwneud y cais.

3. **Trafod meini prawf Bathodyn Glas.**

   Rhoddodd Cheryl Haskell gyflwyniad ar y cynllun Bathodyn Glas ac atebodd gwestiynau aelodau gyda Ian Saunders:

   - Diolch i Cheryl a'r tîm am eu gwaith – mae'r adborth gan breswylwyr yn gadarnhaol iawn. Yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru, ni ddylai gymryd mwy na 12 wythnos i asesu cais. A yw hynny'n dal yn wir? Beth sy'n tueddu i fod y prif broblemau sy'n oedi adnewyddu trwydded i'r rhai sy'n gwneud cais? A ydych wedi medru addasu'r broses i wella'r cyfnod cwblhau ar gyfer cymeradwyo neu benderfyniad mewn rhyw ffordd?

   *Esboniodd Cheryl mai'r nod yw prosesu ceisiadau cyn gynted ag sydd modd, ond y gall rhai ceisiadau – yn arbennig rhai dewisol – gymryd ychydig yn fwy oherwydd yr angen am dystiolaeth ychwanegol. Mae'r tîm yn fach, gyda dim ond un gweinyddydd Bathodynnau Glas, ond cafodd tri o bobl eraill eu hyfforddi i gynorthwyo. Gall y broses gael ei hoedi os yn aros am dystiolaeth neu asesiad annibynnol.*

* Sylwais fod gan wefannau awdurdodau llywodraeth leol wahanol brosesau gwneud cais. Mae rhai yn gwneud cais yn lleol tra bo eraill yn gwneud cais yn uniongyrchol i gynllun cenedlaethol y llywodraeth. Pa un yw'r gorau?

*Soniodd Cheryl fod Sir Fynwy yn defnyddio'r gwasanaeth digidol ar-lein fel yr opsiwn diofyn, sydd yn gyflymach oherwydd ei bod yn osgoi mewnbwn â llaw. Esboniodd y cafodd y ffurflen ei hysgrifennu gan yr Adran Trafnidiaeth yn Lloegr ac y gofynnir cwestiynau ychwanegol i ateb meini prawf Llywodraeth Cymru.*

* Pa mor gyflym all person ddisgwyl derbyn Bathodyn Glas ar ôl i ffurflen SR1 gael ei llenwi ar gyfer rhywun gyda diagnosis terfynol?

*Os oes ganddynt ffurflen SR1, dywedodd Cheryl y gellir rhoi'r cais ar lwybr carlam a'i brosesu yn syth.*

* Beth ydyn ni'n ei wneud i gyfarch y gred fod y cynllun Bathodyn Glas yn cael ei gamddefnyddio a sut y gall pobl roi adroddiad os amheuir camdriniaeth?

*Esboniodd Cheryl eu bod yn gweithio yn agos gyda gorfodaeth parcio i atal camddefnydd. Gellir ei hysbysu os amheuir fod bathodynnau'n cael eu camddefnyddio a chânt eu trin yn ofalus ac yn gyfrinachol. Maent hefyd yn dibynnu ar dechnolegau sydd wedi ymwreiddio mewn bathodynnau i helpu gorfodwyr parcio i adnabod bathodynnau ffug.*

* Gofynnodd Caroline Roberts, Cynrychiolydd Hosbis Dewi Sant, pam fod Sir Fynwy angen y ffurflen SR1 ei hun ar gyfer llwybr carlam y ceisiadau am Fathodyn Glas, tra bo cynghorau eraill yn derbyn datganiad nyrs y cafodd ffurflen SR1 ei llenwi.

* Gofynnodd aelod os oes cysondeb yn y broses gais am Fathodyn Glas rhwng Sir Fynwy ac awdurdodau lleol eraill yn ardal Gwent?

*Esboniodd Cheryl fod Sir Fynwy yn dilyn Canllawiau'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru, sydd angen y ffurflen SR1 i gefnogi'r cais. Cydnabu'r consyrn a dywedodd y byddai'n ystyried ar yr arfer hwn, yn ymgynghori gyda chydweithwyr a hefyd Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt egluro ac efallai ddiwygio'r gweithdrefnau i sicrhau dull gweithredu cyson.*

* Os caiff rhywun ddiagnosis o salwch terfynol ond y disgwylir iddynt fyw am fwy na blwyddyn, a ddylent wneud cais am Fathodyn Glas llwybr carlam i ddechrau ac yna gais dewisol am y cyfnod dilynol?

*Os yw disgwyliad oes person yn debyg o fod am fwy na blwyddyn, dywedodd Cheryl y dylent wneud cais dan y rheolau dewisol o'r dechrau. Yn y ffordd honno byddent yn cael bathodyn am dair blynedd, gan ddileu pryder ailwneud cais ar ôl un flwyddyn.*

* Gofynnodd aelod sut y caiff ei weithredu, gan roi enghraifft o neuadd y sir a'r ffaith y gall rhywun fod angen mynediad dros dro i leoedd i'r anabl.

*Cadarnhawyd y dylid trafod hyn yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.*

* Esboniodd Darren Williams, Cynrychiolydd Cyngor Ar Boeth, nad yw cleientiaid weithiau'n deall meini prawf cyn gwneud cais felly caiff llawer o geisiadau aflwyddiannus eu cyflwyno.

- A oes gennym unrhyw ddata ar gam-drin posibl o'r cynllun? Beth yw'r prif resymau am gam-drin y cynllun, a yw'n achos o bobl yn cael bathodynnau na ddylent eu cael neu achos o fathodynnau sydd wedi darfod?

**Gweithredu:** Cheryl i wirio os oes unrhyw ddata am Sir Fynwy.

- Cyfeiriwyd at hyd yr amser cyn dyfarnu bathodyn glas, a chlywodd aelodau y cyflwynwyd deiseb i'r Senedd am ddiagnoses gydol oes a bathodynnau a ddyfarnwyd am oes.

**Gweithredu:** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Aelod Cabinet wneud ymholiadau pellach am ganlyniad y ddeiseb i'r Senedd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

- Cadarnhaodd yr Is-gadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn gofyn i'r Aelod Cabinet gysylltu â Llywodraeth Cymru am y ffurflen lwfans gweini a'r angen i'w symleiddio.

- Gofynnodd i Cheryl wneud ymholiadau pellach gyda chydweithwyr ar draws Gwent a Llywodraeth Cymru am y ffurflen SR1.

- Byddai'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i'r Aelod Cabinet drafod y problemau parcio yn Neuadd y Sir a'r pwynt a godwyd am anableddau dros dro posibl mewn cyfarfod o Gwasanaethau Democrataidd yn y dyfodol.

4. **Blaenraglen Gwaith a Rhestri Camau Gweithredu y Pwyllgor Craffu Pobl.**

   Nodwyd.

5. **Cynllunydd y Cabinet a'r Cyngor.**

   Nodwyd.

6. **Cadarnhau'r cofnodion canlynol:**

   - 7a Pwyllgor Craffu Pobl – 17 Gorffennaf 2024
   - 7b Pwyllgor Craffu Pobl – 23 Gorffennaf 2024
   - 7c Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Pobl – 19 Medi 2024

   Cytunwyd y cynigion, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Powell ac eiliwyd gan y Cynghorydd Strong.

7. **Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025 am 10.00am.**

   Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025 am 10.00am.

The meeting ended at **11.36 am**